Department of Energy & Climate Change

# Rheoliadau Cyfiawnhau Arferion yn Ymwneud ag Ymbelydredd Ïoneiddio (2004)

## Ymgynghoriad ar Benderfyniad Arfaethedig yr Ysgrifennydd Gwladol, fel yr Awdurdod Cyfiawnhau, ar y Cyfiawnhad Rheoleiddiol ar gyfer Uwch-Adweithydd Dŵr Berwedig y DU (ABWR y DU)

## Cyfrol 1 – Y Ddogfen Ymgynghori

© Hawlfraint y Goron 2014

URN 14D/249

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth yma (ond nid y logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.

I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn abwrjustification@decc.gsi.gov.uk

# Contents

Rheoliadau Cyfiawnhau Arferion yn Ymwneud ag Ymbelydredd Ïoneiddio (2004)................. 1
Ymgynghoriad ar Benderfyniad Arfaethedig yr Ysgrifennydd Gwladol, fel yr Awdurdod Cyfiawnhau, ar y Cyfiawnhad Rheoleiddiol ar gyfer Uwch-Adweithydd Dŵr Berwedig y DU (ABWR y DU) ........................................................................................................... 1
Cyfrol 1 – Y Ddogfen Ymgynghori.......................................................................... 1
Contents ................................................................................................................. 4
Cynnwys..........................................................................**Error! Bookmark not defined.**
Pennod 1 - Rhagarweiniad...................................................................................... 5
Pwrpas yr ymgynghoriad ......................................................................................... 5
Cefndir yr ymgynghoriad hwn .................................................................................. 5
Y Cais .................................................................................................................... 6
Ymgynghori ar y cais............................................................................................... 7
Penderfyniad ar y dosbarth neu fath o arfer............................................................. 7
Pennod 2 – Crynodeb o'r Cwestiynau ...................................................................... 8
Pennod 3 – Sut i Ymateb ....................................................................................... 10
Ymgysylltu â'r cyhoedd ......................................................................................... 10
Cyfrinachedd a diogelu data.................................................................................. 10
Cod ymddygiad ar ymgynghori .............................................................................. 11
Atodiad A ............................................................................................................. 12
Amserlen ddangosol ............................................................................................. 12

# Pennod 1 - Rhagarweiniad

## Pwrpas yr ymgynghoriad

1.1 Proses yw Cyfiawnhad Rheoleiddiol sy'n ofynnol o dan Reoliadau Cyfiawnhau Arferion sy'n Ymwneud ag Ymbelydredd Ïoneiddio 2004 (y cyfeiriwn atynt yn yr ymgynghoriad hwn fel y Rheoliadau)[1], lle mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, fel yr Awdurdod Cyfiawnhau, benderfynu a oes cyfiawnhad dros ddosbarth neu fath newydd o arfer sy'n arwain at ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio, oherwydd ei fanteision economaidd, cymdeithasol neu fanteision eraill o'u cymharu â'r niwed i iechyd y gallai ei achosi.

1.2 Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am ymateb i benderfyniad arfaethedig yr Ysgrifennydd Gwladol ar y Cyfiawnhad Rheoleiddiol ar gyfer yr Uwch-Adweithydd Dŵr Berwedig (ABWR) a ddyluniwyd gan Hitachi-GE Nuclear Energy Ltd, gyda'r nod o brofi'r penderfyniad arfaethedig, a'r dystiolaeth y seiliwyd hwnnw arni, gan roi cyfle i bobl godi unrhyw fater arall sydd, yn eu barn nhw, yn berthnasol.

1.3 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cyflwyno Cyfrol 1 y wybodaeth am yr ymgynghoriad hwn. Mae'n crynhoi pwrpas yr ymgynghoriad ac yn rhoi arweiniad ar sut i ymateb.

1.4 Mae Cyfrol 2 yr ymgynghoriad yn cyflwyno'r penderfyniad arfaethedig bod Cyfiawnhad o dan y Rheoliadau dros y dyluniad adweithydd newydd a elwir yn ABWR.

## Cefndir yr ymgynghoriad hwn

1.5 Ym mis Mai 2007, cyhoeddodd y Llywodraeth ymgynghoriad technegol ar broses arfaethedig o gyfiawnhad rheoleiddiol ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd[2] fel rhan o ymgynghori gyda'r cyhoedd ar rôl pŵer niwclear. Cyfrannodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad at ddatblygu'r broses hon o gyfiawnhad rheoleiddiol ac at ddatblygu canllawiau ar gyfer ymgeiswyr.

1.6 Yn Ionawr 2008, cyhoeddodd y Llywodraeth ei Phapur Gwyn ar Bŵer Niwclear[3] yn cadarnhau'r broses yr oedd yn bwriadu ei dilyn ar gyfer cyfiawnhad rheoleiddiol. Ym mis Mawrth 2008, dywedodd y Llywodraeth fod angen ceisiadau cyfiawnhad rheoleiddiol ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd gan gyhoeddi canllawiau i ymgeiswyr[4]. Ym mis

---

[1] Rheoliadau Cyfiawnhau Arferion yn Ymwneud ag Ymbelydredd Ïoneiddio 2004, Offeryn Statudol 2004 Rhif 1769 http://www.opsi.gov.uk/si/si2004/20041769.htm

[2] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/http:/www.berr.gov.uk/files/file39199.pdf

[3] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100512172052/http://www.decc.gov.uk/media/viewfile.ashx?filepath=what we do/uk energy supply/energy mix/nuclear/whitepaper08/file43006.pdf&filetype=4

[4] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100512172052/http://www.decc.gov.uk/media/viewfile.ashx?filepath=what we do/uk energy supply/energy mix/nuclear/whitepaper08/file43006.pdf&filetype=4

Mehefin 2008, derbyniodd y Llywodraeth gais gan y NIA am benderfyniad cyfiawnhad rheoleiddiol ar gyfer: *“cynhyrchu trydan o ynni niwclear yn defnyddio tanwydd ocsid wedi’i gyfoethogi’n isel mewn cynnwys ymholltog mewn adweithydd thermol wedi'i oeri a’i gymedroli gan ddŵr ysgafn yn defnyddio dyluniadau esblygol newydd”.*

1.7 Cychwynnodd broses o ymgynghori â'r cyhoedd ar y cais yn Rhagfyr 2008[5] gan redeg tan fis Mawrth 2009. Yn yr ymgynghoriad hwnnw, cyflwynodd y Llywodraeth ei barn ragarweiniol y dylai'r Awdurdod Cyfiawnhau wneud ei benderfyniadau drwy gyfeirio at bedwar dosbarth neu fath o arfer, ar sail pedwar dyluniad unigol ar gyfer adweithydd: yr ACR1000, yr AP1000, yr EPR a’r ESBWR.

1.8 Yna ym mis Tachwedd 2009[6] cychwynnwyd ar broses bellach o ymgynghori gyda’r cyhoedd, a fu’n rhedeg tan fis Chwefror 2010, ar benderfyniadau arfaethedig gan yr Awdurdod Cyfiawnhau y dylid cyfiawnhau dau o’r arferion hyn, sef yr AP1000 a’r EPR. Cyhoeddodd yr Awdurdod Cyfiawnhau ei benderfyniadau terfynol y dylid cyfiawnhau’r AP1000 a’r EPR ym mis Hydref 2010[7] ac ar ôl i’r ddau Dŷ Seneddol eu hystyried, daeth y penderfyniadau hyn i rym pan basiwyd y rheoliadau ym mis Tachwedd 2010[8].

1.9 Hwn yw’r cais cyntaf am gyfiawnhad rheoleiddiol ar gyfer dyluniad newydd yng nghyswllt adweithydd niwclear ers y cais yn 2008.

## Y Cais

1.10 Ym mis Rhagfyr 2013, derbyniodd y Llywodraeth gais gan y NIA am benderfyniad cyfiawnhad rheoleiddiol ar gyfer y dosbarth neu’r math canlynol o arfer: *“Cynhyrchu trydan o ynni niwclear yn defnyddio tanwydd ocsid wedi’i gyfoethogi’n isel mewn cynnwys ymholltog mewn adweithydd thermol wedi'i oeri a’i gymedroli gan ddŵr ysgafn a elwir yn ABWR wedi’i ddylunio gan Hitachi-GE Nuclear Energy Ltd”.* Roedd y cais yn gofyn am benderfyniad ynghylch a yw’r dosbarth neu fath arfaethedig o arfer yn un newydd neu’n bodoli’n barod ac, os yw’n newydd, a oes cyfiawnhad drosto.

1.11 Roedd y Cais yn cynnwys tystiolaeth i geisio dangos bod manteision crynswth y dosbarth neu'r math o arfer arfaethedig yn gorbwyso’r niwed radiolegol i iechyd.

---

[5] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20121217150421/http://decc.gov.uk/as sets/decc/what%20we%20do/uk%20energy%20supply/energy%20mix/nuclear/whitepaper08/actions/regjust/file45384.pdf

[6] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20121217150421/http://decc.gov.uk/assets/decc/what%20we%20do/uk%20energy%20supply/energy%20mix/nuclear/whitepaper08/actions/regjust/file45384.pdf

[7] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20121217150421/http://decc.gov.uk/assets/decc/what%20we%20do/uk%20energy%20supply/energy%20mix/nuclear/whitepaper08/actions/regjust/file45384.pdf

[8] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20121217150421/http://decc.gov.uk/assets/decc/what%20we%20do/uk%20energy%20supply/energy%20mix/nuclear/whitepaper08/actions/regjust/file45384.pdf

## Ymgynghori ar y cais

1.12 Cyhoeddodd y Llywodraeth ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cais ar 18 Chwefror 2014. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd helpu'r Ysgrifennydd Gwladol wrth iddo ystyried y Cais. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar 13 Mai 2014.

1.13 Derbyniodd y Llywodraeth 66 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad ar y Cais. Bydd yr ymatebion yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Llywodraeth. Yr ymgynghoriad hwn, a phenderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y dosbarth neu'r math o arfer, yw ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghori ar y Cais.

## Penderfyniad ar y dosbarth neu fath o arfer

1.14 Cyn y gall yr Ysgrifennydd Gwladol benderfynu a oes Cyfiawnhad o dan y Rheoliadau dros ddosbarth neu fath o arfer, rhaid iddo'n gyntaf benderfynu beth yw'r dosbarth neu fath o arfer a ddisgrifir yn y Cais ac a ddylid ei ystyried i fod yn ddosbarth neu'n fath newydd o arfer i bwrpas y Rheoliadau.

1.15 Roedd y cwestiynau hyn yn rhan o destun yr ymgynghoriad ar y Cais. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu y dylid trin y Cais fel cais am Gyfiawnhad Rheoleiddiol ar gyfer dosbarth neu fath o arfer a'i fod yn ddosbarth neu'n fath newydd o arfer i bwrpas y Rheoliadau.

# Pennod 2 – Crynodeb o'r Cwestiynau

2.1 Yr ymatebion mwyaf defnyddiol fydd rhai sy'n ymateb yn uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnir, er ein bod hefyd yn croesawu sylwadau pellach a thystiolaeth.

2.2 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gofyn cwestiynau ar ddiwedd penodau 4 hyd at 9 yn nogfen y penderfyniad arfaethedig i'w helpu i wneud ei benderfyniadau terfynol. Rhoddir rhestr lawn o'r cwestiynau isod, a manylion sut i ymateb.

| Cwestiynau'r Ymgynghoriad | |
|---|---|
| **2.** | **Mae Pennod 1 (Penderfyniad Arfaethedig yr Ysgrifennydd Gwladol) yn cyflwyno penderfyniad arfaethedig yr Ysgrifennydd Gwladol bod cyfiawnhad dros y dosbarth neu'r math o arfer ar sail ei fanteision o'u cymharu â'r niwed i iechyd y gallai ei achosi. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â phenderfyniad arfaethedig yr Ysgrifennydd Gwladol? Rhowch resymau dros eich ateb. A gredwch fod unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r penderfyniad arfaethedig nad yw'r Bennod hon yn cyfeirio atynt? Os oes, dywedwch beth ydynt ac eglurwch sut a pham eu bod yn berthnasol, a pha gasgliadau y credwch y dylid dod iddynt yng ngoleuni'r materion hyn.** |
| **2.** | **Mae Pennod 4 (Budd Lleihau Carbon) yn cyflwyno tystiolaeth o'r budd lleihau carbon posibl a fyddai'n deillio o'r dosbarth neu fath o arfer. Mae hefyd yn nodi barn bresennol yr Ysgrifennydd Gwladol ar sail y wybodaeth honno. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â barn bresennol yr Ysgrifennydd Gwladol am y materion hyn? Rhowch resymau dros eich ateb. A gredwch fod unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r budd lleihau carbon posibl nad yw'r Bennod hon yn cyfeirio atynt? Os oes, dywedwch beth ydynt ac eglurwch sut a pham eu bod yn berthnasol, a pha gasgliadau y credwch y dylid dod iddynt yng ngoleuni'r materion hyn.** |
| **3.** | **Mae Pennod 5 (Sicrwydd Cyflenwad / Economaidd) yn cyflwyno tystiolaeth o'r budd posibl drwy sicrwydd cyflenwad a ffactorau economaidd eraill a fyddai'n deillio o'r dosbarth neu fath o arfer. Mae hefyd yn nodi barn bresennol yr Ysgrifennydd Gwladol ar sail y wybodaeth honno. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â barn bresennol yr Ysgrifennydd Gwladol am y materion hyn? Rhowch resymau dros eich ateb. A gredwch fod unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r budd posibl drwy sicrwydd cyflenwad a ffactorau economaidd eraill nad yw'r Bennod hon yn cyfeirio atynt? Os oes, dywedwch beth ydynt ac eglurwch sut a pham eu bod yn berthnasol, a pha gasgliadau y credwch y dylid dod iddynt yng ngoleuni'r materion hyn.** |
| **4.** | **Mae Pennod 6 (Niwed Radiolegol i Iechyd) yn cyflwyno tystiolaeth o'r niwed** |

| | |
|---|---|
| | **radiolegol posibl i iechyd yn deillio o'r dosbarth neu fath o arfer. Mae hefyd yn nodi barn bresennol yr Ysgrifennydd Gwladol ar sail y wybodaeth honno. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â barn bresennol yr Ysgrifennydd Gwladol am y materion hyn? Rhowch resymau dros eich ateb.<br>A gredwch fod unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r niwed radiolegol posibl i iechyd nad yw'r Bennod hon yn cyfeirio atynt? Os oes, dywedwch beth ydynt ac eglurwch sut a pham eu bod yn berthnasol, a pha gasgliadau y credwch y dylid dod iddynt yng ngoleuni'r materion hyn.** |
| **5.** | **Mae Pennod 6 (Gwastraff Ymbelydrol) yn cyflwyno tystiolaeth o'r niwed posibl a achosir gan y gwastraff ymbelydrol a fyddai'n deillio o'r dosbarth neu fath o arfer. Mae hefyd yn nodi barn bresennol yr Ysgrifennydd Gwladol ar sail y wybodaeth honno. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â barn bresennol yr Ysgrifennydd Gwladol am y materion hyn? Rhowch resymau dros eich ateb. A gredwch fod unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r niwed posibl a fyddai'n deillio o reoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol nad yw'r Bennod hon yn cyfeirio atynt? Os oes, dywedwch beth ydynt ac eglurwch sut a pham eu bod yn berthnasol, a pha gasgliadau y credwch y dylid dod iddynt yng ngoleuni'r materion hyn.** |
| **6.** | **Mae Pennod 8 (Niwed Amgylcheddol) yn cyflwyno tystiolaeth o'r niwed posibl i'r amgylchedd yn deillio o'r dosbarth neu fath o arfer. Mae hefyd yn nodi barn bresennol yr Ysgrifennydd Gwladol ar sail y wybodaeth honno. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â barn bresennol yr Ysgrifennydd Gwladol am y materion hyn? Rhowch resymau dros eich ateb. A gredwch fod unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r niwed posibl i'r amgylchedd nad yw'r Bennod hon yn cyfeirio atynt? Os oes, dywedwch beth ydynt ac eglurwch sut a pham eu bod yn berthnasol, a pha gasgliadau y credwch y dylid dod iddynt yng ngoleuni'r materion hyn.** |
| **7.** | **Mae Pennod 9 (Diogelwch, Seciwriti a Rhagofalon) yn cyflwyno tystiolaeth o effaith bosibl y dosbarth neu fath o arfer yn nhermau diogelwch a seciwriti. Mae hefyd yn nodi barn bresennol yr Ysgrifennydd Gwladol ar sail y wybodaeth honno. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â barn bresennol yr Ysgrifennydd Gwladol am y materion hyn? Rhowch resymau dros eich ateb. A gredwch fod unrhyw faterion sy'n berthnasol i ddiogelwch a seciwriti nad yw'r Bennod hon yn cyfeirio atynt? Os oes, dywedwch beth ydynt ac eglurwch sut a pham eu bod yn berthnasol, a pha gasgliadau y credwch y dylid dod iddynt yng ngoleuni'r materion hyn.** |
| **8.** | **A oes unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud?** |

# Pennod 3 – Sut i Ymateb

3.1 Dechreuodd yr ymgynghoriad hwn ar **24 Gorffennaf 2014** a daw i ben ar **23 Hydref 2014**.

Dylech gyflwyno eich ymateb, drwy e-bost os gallwch, i:

Cais Cyfiawnhad Rheoleiddiol ABWR

Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd

Ystafell 108

55 Whitehall

Llundain

SW1A 2EY

E-bost: abwrjustification@decc.gsi.gov.uk

3.2 Wrth ymateb, cofiwch nodi a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, cofiwch nodi'n glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle bo hynny'n berthnasol, sut aethoch ati i gasglu barn ei aelodau.

3.3 Wrth ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd y Llywodraeth yn rhoi mwy o bwysau i ymatebion sy'n seiliedig ar ddadleuon a thystiolaeth yn hytrach na rhai sydd ond yn mynegi cefnogaeth neu wrthwynebiad.

3.4 Gallwch wneud copïau o'r ddogfen hon heb ofyn am ganiatâd. Mae fersiwn electronig ar gael yn : https://www.gov.uk/government/consultations/consultation-on-the-secretary-of-states-proposed-decision-as-justifying-authority-on-the-regulatory-justification-of-the-uk-advanced-boiling-water-re

## Ymgysylltu â'r cyhoedd

3.5 Yn ogystal â'r ymgynghori ysgrifenedig ar y ddogfen penderfyniad drafft, mae'r Llywodraeth am gynnal digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad hwn i roi cyfle i bartïon budd ofyn cwestiynau am y ddogfen penderfyniad drafft. Os oes diddordeb gennych mewn dod i ddigwyddiad o'r fath, rhowch wybod hynny drwy gysylltu â'r cyfeiriad uchod erbyn dydd Gwener 15 Awst.

## Cyfrinachedd a diogelu data

3.6 Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu'n unol â

deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf, y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

3.7 Os ydych am i'r wybodaeth a gyflwynwch gael ei thrin yn gyfrinachol, cofiwch nodi hynny'n glir yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro i ni pam eich bod yn ystyried bod y wybodaeth a roesoch i ni'n gyfrinachol. Os derbyniwn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd ichi y gallwn gadw'r cyfrinachedd hwnnw bob tro. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried i fod yn gais am gyfrinachedd.

## Cod ymddygiad ar ymgynghori

3.8 Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gynnal yn unol ag Egwyddorion Ymgynghori'r Llywodraeth, sydd ar gael yma: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/60937/Consultation-Principles.pdf

3.9 Os oes gennych unrhyw gwynion am broses yr ymgynghoriad (nid sylwadau ar y materion sy'n destun yr ymgynghoriad), dylech eu cyfeirio at:

Cydgysylltydd Ymgynghori DECC

3 Whitehall Place

Llundain SW1A 2AW

E-bost: consultation.coordinator@decc.gsi.gov.uk

# Atodiad A

## Amserlen ddangosol

| **Y broses cyfiawnhad rheoleiddiol** | **Amserlen ddangosol** |
|---|---|
| Y Llywodraeth yn derbyn cais gan Gymdeithas y Diwydiant Niwclear (NIA). | Rhagfyr 2013 |
| Y Pwyllgor Cydgysylltu Cyfiawnhad (JCC) yn ystyried y cais. | Rhagfyr 2013 - Ionawr 2014 |
| Ymgynghori gyda’r cyhoedd ar gais y NIA. | 18 Chwefror 2014 |
| Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion. | 13 Mai 2014 |
| Ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, gofyn am wybodaeth bellach fel bo angen a pharatoi dogfen penderfyniad drafft, mewn ymgynghoriad â’r JCC. Bydd y ddogfen penderfyniad drafft yn nodi asesiad yr Awdurdod Cyfiawnhau o fanteision a niwed y dosbarth neu’r math o arfer. | Mai – Gorffennaf 2014 |
| **Ymgynghori’n gyhoeddus ar y ddogfen penderfyniad drafft, gan gynnwys digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd (y cam presennol)** | **24 Gorffennaf 2014** |
| Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion. | 23 Hydref 2014 |
| Penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol: os ceir bod Cyfiawnhad dros y dosbarth neu’r math o arfer, bydd yr Awdurdod Cyfiawnhau’n gwneud penderfyniad cyfiawnhad rheoleiddiol ar ffurf is-ddeddfwriaeth (Offeryn Statudol). | Ionawr - Mawrth 2015 |
| Tynnu sylw unrhyw berson sy’n debygol o gael ei effeithio gan y penderfyniad drwy ysgrifennu at yr ymgeisydd, gwneud datganiad i’r wasg a chyhoeddi hysbysiadau ym mhapurau’r London, Edinburgh a’r Belfast Gazette. | Ionawr - Mawrth 2015 |

© Hawlfraint y Goron 2014
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd
3 Whitehall Place
Llundain SW1A 2AW
www.gov.uk/decc
URN 14D/249